# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 16 Mehefin 2026 |
| **TEITL YR EITEM** | DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH HYBU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH |
| **PWRPAS** | Cyflwyno datganiad drafft ynghyd â'r rhaglen waith i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Annes Sion – Arweinydd Tim Democratiaeth |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu  y Datganiad Amrywiaeth Mewn Democratiaeth (ar ei newydd wedd) ynghyd â'r rhaglen waith i gefnogi gweithredu ar y datganiad.

## 2. CEFNDIR A RHESYMEG

**Rhagair**

3. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gefnogol i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth, gyda nifer o gamau wedi eu cymryd dros y blynyddoedd i geisio annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll mewn etholiadau.

4. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref, 2021 bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth – gan ddatgan yn glir a chyhoeddus ein ymrwymiad ni yma yng Ngwynedd.

5. Gydag etholiadau Llywodraeth Leol Cymru ar y gweill ym mis Mai 2027, mae'n amserol adolygu'r datganiad cyhoeddus fod Cyngor Gwynedd yn hybu a hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth.  Er nad  yw'n ofyn statudol  rydym yn grediniol  fod aelodau etholedig cyfredol Cyngor Gwynedd yn awyddus i sicrhau cynrychiolaeth deg o'r gymdeithas yng Ngwynedd i sefyll yn yr etholiadau ac felly'n annog unigolion o bob cefndir i wneud hynny.

6. Mae adolygiad o’r datganiad yn **atodiad 1. Nid oes newid sylweddol yn y datganiad, namyn mân ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Fodd bynnag, mae’n bwysig ein bod yn ail ddatgan ein ymrwymiad i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth cyn etholiad Llywodraeth Leol 2027.**

7. Mae **atodiad 2** yn cynnwys rhaglen waith i sicrhau fod y Cyngor yn cymryd camau penodol i geisio hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a gwireddu’r datganiad uchod.

8. Gofynnwn i chi fel aelodau y Pwyllgor am eich sylwadau ar yr adolygiad o’r datganiad, ynghyd a’r cynllun gwaith fel y gellir eu cyflwyno i’w mabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf.